

YMUNO Â PHANEL GWYLIO TELEDU CENEDLAETHOL BARB

www.shapingtv.co.uk

Barb
What People Watch

Ipsos

RSMB

FIFTY5 BLUE

Version 19



Scott Jakeways

Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd Teledu

Ipsos

Diolch i chi am eich diddordeb mewn ymuno â Phanel Gwylio Teledu Cenedlaethol Barb. Mae aelodau'r panel yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r diwydiant teledu trwy ganiatáu i ni fesur eu hymddygiad gwylio.

Mae eich cartref wedi cael ei ddewis yn arbennig ac mae'r diwydiant teledu cyfan yn gwerthfawrogi'ch cyfraniad. Heb gartrefi parod fel eich un chi, fydden ni byth yn gwybod pwy sy'n gwylio beth.

Gyda'r llyfryn hwn gobeithiwn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y broses a ddefnyddiwn i fonitro gwylio ar setiau teledu, llechi, cyfrifiaduron a ffonau clyfar.

Pam fod cynulleidfaoedd teledu yn cael eu mesur?

Mae gwybodaeth gwylio a gesglir o gartrefi ar y panel Gwylio Teledu Cenedlaethol yn darparu darlun clir o bwy sy'n gwylio gwahanol raglenni a phryd.

Defnyddir y wybodaeth hon gan ddarlledwyr i'w helpu i ddeall eu cynulleidfa. Trwy gymryd rhan yn y panel, byddwch yn dylanwadu ar ddyfodol teledu.

Pwy sy'n cymryd rhan?

Ni all pawb fod yn rhan o'r panel; ychydig filoedd o gartrefi yn unig sy'n cymryd rhan.

Mae cartrefi sy'n cymryd rhan yn cael eu dewis ar hap mewn modd sy'n sicrhau fod y panel yn cynrychioli holl gartrefi'r Deyrnas Unedig.

Pam fy nghartref i?

Mae angen trawstoriad o'r boblogaeth, yn cwmpasu pob oed a chefndir, gan gynnwys pobl sy'n gwylio ychydig, neu ddim teledu, a'r rhai sydd heb set deledu o gwbl.

Fe hoffem i chi gymryd rhan i adlewyrchu arferion gwylio pobl yn union fel chi.



Sut mae'n gweithio?

Mae'r gwylio ar bob teledu, llechen, cyfrifiadur a ffôn clyfar yn cael ei fesur ar gyfer pawb yn eich cartref.

I wneud hyn:

- Mae angen i bawb yn y cartref gytuno
- Mae dyfais fach yn cael ei chysylltu'n uniongyrchol â'ch llwybrydd band eang er mwyn i ni allu casglu gwybodaeth gwylio ar gyfer dyfeisiadau llechen, cyfrifiaduron a ffonau clyfar ar eich rhwydwaith.
- Rydym hefyd yn gosod dyfais fach tebyg i lechen ger pob set deledu sy'n ein caniatáu i adnabod y rhaglenni sy'n cael eu gwylio a pha aelod o'r cartref sy'n gwylio.



Cyfrinachedd

Ni fydd asiantaethau ymchwil a gomisiynwyd gan Barb (Ipsos, Kantar ac RSMB) yn datgelu eich hunaniaeth i unrhyw drydydd parti, a bydd eich holl fanylion yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol.

Dim ond cwmnïau ymchwil a gomisiynwyd gan Barb fydd yn cadw eich manylion personol chi a'r bobl yn eich cartref

a dim ond mewn perthynas â'r astudiaeth hon y defnyddir eich manylion.

Cipolwg...

Llechi, cyrffifiaduron, ffonau clyar

- Caiff y Focal Meter ei gysylltu i lwybrydd band eang y cartref
- Mae'r Focal Meter yn casglu gwybodaeth gan wasanaethau teledu adloniant penodol
- Mae aelodau'r panel yn darparu gwybodaeth am ymddygiad gwylio a pherchnogaeth dyfeisiau

Teledu

- Cysylltir mesurydd teledu â phob teledu yn y cartref
- Mae'r mesurydd yn casglu olion bychain o sain
- Mae'r sain yn cael ei gymharu gyda llyfrgell gyfeirio o'r holl gynnwys teledu sydd wedi ei ddarlledu
- Mae aelodau'r cartref yn cofnodi eu presenoldeb trwy bwyso botwm ar ddyfais rheolaeth o bell neu ddewis eu avatar

Ar gyfer llechi, cyfrifiaduron a ffonau clyfar: Y Focal Meter



Mae'r Focal Meter yn casglu gwybodaeth o wasanaethau teledu penodol yn unig ac ni all weld unrhyw beth arall yr ydych chi neu aelodau'ch cartref yn ei wneud ar unrhyw wefan neu ap arall. Ni allwn ddarllen negeseuon gwib, e-byst, bancio ar-lein nac unrhyw gyfathrebiadau personol eraill o gwbl.

Mae rhestr o'r holl wasanaethau a fesurir gan y Focal Meter i'w gweld yma: **www.virtualmeter.co.uk/focalmeter**

Ar adeg argraffu y rhestr yw: Acorn TV, Apple TV+, Britbox, Chili, Dailymotion, DAZN, Disney+, Hayu, Highbrow, Hopster, Netflix, Pluto TV Non- Linear URL, POP Player, Prime Video, Rakuten TV, Samsung TV Plus, TikTok, TVPlayer, Twitch, Vevo, Virgin Media Non-Linear, W4FREE, YouTube (a Google Video), YuppTV.

Ni fydd y Focal Meter yn cael effaith ar sut mae'ch band eang neu'ch dyfeisiau'n gweithio.

Ar gyfer y Teledu: Y Mesurydd Teledu



Pan fydd y teledu wedi ei droi ymlaen, mae'r mesurydd yn casglu gwybodaeth ynghylch y sianelau sy'n cael eu gwylio.

Mae'n gwneud hyn heb amharu mewn unrhyw fodd ar y teledu, ac ni fydd yn effeithio ar sut ydych chi'n defnyddio unrhyw offer presennol.

Mae'r mesurydd teledu yn defnyddio sain o'r rhaglen i nodi beth sy'n cael ei wylio.

Beth fydd rhaid i mi wneud mewn gwirionedd?

Byddwch yn cael teclyn rheoli ar gyfer pob mesurydd teledu a bydd pob aelod o'r cartref yn cael botwm penodedig ar y rheolydd. Gallwch hefyd fewngofnodi ar sgrin gyffwrdd y mesurydd trwy ddewis eich avatar.

Rydym angen i chi bwyso eich botwm neu ddewis eich avatar pan:



- Ydych chi yn yr ystafell a'r teledu yn cael ei droi ymlaen
- Byddwch yn dod i mewn i'r ystafell ac mae'r teledu ymlaen
- Byddwch yn gadael yr ystafell ac mae'r teledu ymlaen

Mae yna fotymau unigol i gofrestru gwesteion sy'n ymweld â'ch cartref.

Unwaith bydd y broses osod wedi'i chwblhau ar gyfer llechi, cyfrifiaduron a ffonau clyfar does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth. Mae'r Focal Meter yn gwneud popeth yn awtomatig i chi.

Mae gennym dîm o reolwyr panel sydd ar gael i ateb unrhyw ymholiadau. Efallai y byddant yn rhoi galwad i chi yn y misoedd cyntaf i weld sut hwyl ydych chi'n ei gael arni, neu os byddant yn gweld unrhyw beth annisgwyl yn y data.

Sut mae eich data gwylio yn cael ei ddychwelyd i ni?

Mae pob mesurydd teledu yn anfon y data gwylio atom trwy gydol y diwrnod, fel arfer gan ddefnydddio eich rhwydwaith di-wifr, neu fel arall gan ddefnyddio cardiau SIM.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth, a ni fydd yn costio unrhyw beth i chi ddychwelyd y data.

Os nad oes rhwydwaith di-wifr neu symudol, yna defnyddir rhif rhadffôn trwy eich ffôn cartref. Eto, ni fydd unrhyw gost i chi.

Y broses osod:

Gweithredir y panel gan Kantar ar ran Barb. Bydd un o dechnegwyr Kantar yn ymweld â'ch cartref i osod yr offer ar amser sy'n addas i chi.

Bydd y technegydd yn:

- Cysylltu Focal Meter i'ch llwybrydd band eang
- Cysylltu mesurydd teledu â phob set deledu
- Paratoi teclyn rheoli ar gyfer pob mesurydd teledu
- Gwirio bo'r offer yn gweithio'n iawn
- Dangos i chi sut i gofrestru'ch gwylio
- Ateb cwestiynau sydd gennych am yr offer maent wedi'i osod



Ni fydd unrhyw beth a wneir yn effeithio ar y ffordd mae'ch setiau teledu, llechi, cyfrifiaduron na ffonau clyfar yn gweithio.

Pa mor hir'r fydd o'n gymryd?

Rydym yn argymell eich bod yn gadael ychydig oriau ar gyfer y broses gyfan; fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar y math a nifer o setiau teledu, llechi, cyfrifiaduron a ffonau clyfar sydd yn eich cartref a gellir eu rhannu ar draws mwy nag un ymweliad os yw'n fwy cyfleus i chi.



Bydd yr amser gosod yn cael ei gadarnhau pan fydd Kantar yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad i'r technegydd ymweld.



Cartrefi heb lwybrydd band eang:

Mewn cartrefi nad oes ganddynt lwybrydd band eang bydd ‘ap’ yn cael ei osod ar bob llechen, cyfrifiadur a ffôn clyfar yn y cartref yn lle gosod Focal Meter. Os nad oes dyfais ar gael ar y diwrnod gosod, byddwn yn gofyn i chi naill ai ffonio’r ddesg gymorth neu drefnu apwyntiad arall i gael y ddyfais goll wedi’i gosod gyda’r ap Virtual Meter. Os yw’r ddyfais goll yn ffôn clyfar neu’n lechen gellir gwneud hyn ar y ffôn. Fodd bynnag, os mai bwrdd gwaith neu liniadur ydyw, bydd angen i ni archebu ymweliad gan dechnegydd arall i’w osod.

Diolch Cynllun Gwobwyo Y Panel



Drwy ymuno â phanel Barb, rydych chi'n helpu diwydiant teledu y DU i ddeall ei gynulleidfa.

I ddiolch, byddwch yn derbyn gwobrau rheolaidd fel rhan o gynllun gwobrwyo y panel.

Unwaith y bydd yr offer wedi ei osod yn eich cartref, byddwch yn dechrau casglu pwyntiau y gellir eu cyfnewid

am wobrwyon.

Mae 1,000 o bwyntiau yn cyfateb i werth £1 o nwyddau / talebau ac maent yn syml i'w defnyddio.

Unigolyn	Pwyntiau bob mis	Cyfwerth a:	Y flwyddyn
Aelod 10+ eod	5,000	£5.00	£60.00
Aelod 4-9 eod	4,000	£4.00	£48.00

+

Cartref	Pwyntiau bob chwarter	Cyfwerth a:	Y flwydden
Unrhyw nifer yn y cartref	21,000	£21.00	£84.00
Y set - o'r ail set ymlaen	8,000	£8.00	£32.00

Mae'r swm o bwyntiau a gewch yn dibynnu ar nifer y bobl yn eich cartref.

Amcangyfrif o wobrau i'ch cartref:

Fel rhan o'r ymweliad gan y technegydd, cewch yr holl fanylion sydd eu hangen arnoch i sefydlu'ch cyfrif gwobrwyo.

Gellir defnyddio'r pwyntiau trwy wefan gwobrau arbennig neu linell gymorth dros y ffôn a gellir eu cyfnewid am nwyddau neu dalebau mewn ystod eang o leoedd, gan gynnwys:

- Rhestr o tua 4,500 o eitemau unigol y gellir eu hawlio'n uniongyrchol o'r wefan
- Mwy na 75 o siopau ar-lein a stryd fawr, gan gynnwys; M&S, Argos, Currys/PC World, Next a B&Q
- Talebau stryd fawr, megis; Love2Shop a Compliments
- Tocynnau Sinema, Theatr a Bwytai; megis Cineworld, UCI/Odeon, Ticketmaster, Theatre Tokens, tkts a Top Table
- Dyddiau allan a phrofiadau; Alton Towers, Thorpe Park, Warwick Castle, Madame Tussaud's a llawer mwy



Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn y dyddiau nesaf, byddwn yn cysylltu â chi trwy SMS neu WhatsApp, ac e-bost, a byddwn yn cynnwys dolen i chi gadarnhau hynny:

- Fod gennym rif y gallwn gysylltu â chi arno
- Fod y manylion sydd gennym ar eich cyfer yn gywir
- Fod pob aelod o'r cartref yn deall beth sy'n digwydd a chytuno i gymryd rhan

Efallai y bydd ein tîm ffôn hefyd yn cysylltu â chi ar y rhif ffôn a ddarparwyd gennych.

Os ydych wedi dewis WhatsApp i gadarnhau, y rhif y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi yw **+44 7860 041 017**, cadwch ef fel eich bod yn ei adnabod yn nes ymlaen.

Efallai yr hoffech chi gadw'r rhif ar eich ffôn fel eich bod yn gwybod mai ni sy'n galw.

Bydd Kantar wedyn yn trefnu apwyntiad i dechnegydd ymweld. Byddant yn eich ffonio o **08000189671**.

Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y panel, ffoniwch dîm Ipsos yn ystod oriau swyddfa gan ddefnyddio'r rhif rhadffôn **0808 129 6827**.

Neu, gallwch anfon e-bost i'r tîm ar **shapingtv@ipsos.com**.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch panel gwylio Barb trwy ymweld â'n gwefan **www.shapingtv.co.uk**.

Cwestiynau cyffredin



“Am ba mor hir fydda i ar y panel?”

Chi sydd i ddweud. Unwaith yr ymunwch â’r panel, does dim ymrwymiad ar ba mor hir y dylech barhau ar y panel. Fel arfer byddwn yn disgwyl i bobl ymroi i o leiaf ychydig fisoedd, ond mae nifer yn aros ymlaen am sawl blwyddyn.

“Beth sy’n digwydd i’m data gwylio?”



Fe ddefnyddir yr wybodaeth i ddeall sut mae pobl yn gwylio teledu a gwasanaethau adloniant. Cesglir data gwylio dros nos ynghyd â chartrefi eraill ledled y wlad. Bob bore am 9:30 am mae Barb yn cyhoeddi’r data gwylio hwn i roi ffigurau cynulleidfa i ddarlledwyr a hysbysebwyr ar raglenni’r diwrnod blaenorol.

“Dwi ddim yn gwylio teledu ar fy llechen/ cyfrifiadur/ ffôn clyfar. A oes angen ei fonitro beth bynnag?”



Oes, mae angen i ni fonitro’r holl lechi, cyfrifiaduron a ffonau clyfar p’un a ddefnyddir y rhain i wylio teledu ar hyn o bryd neu fe’u defnyddir at ddibenion gwaith yn unig.

Mae hyn yn helpu cadarnhau os na wyliwyd unrhyw raglenni ac yn dangos pan fydd pobl yn dechrau gwylio.



“A fydd yn costio unrhyw beth i mi?”

A fydd yn costio unrhyw beth i mi?” Mae angen cyflenwad cyson o’r prif gyflenwad ar y Mesuryddion Teledu a’r Mesuryddion Ffocal, ac mae rhan o’r taliad gwobrau wedi’i gynllunio i dalu am y trydan y maent yn ei ddefnyddio.

Bydd gwerth eich cymhellion wedi’i ddarparu yn ystod y cyfweliad recriwtio gwreiddiol. Bydd y rhain yn seiliedig ar yr ymatebion a ddarparwyd ar y pryd. Bydd y peiriannydd gosod yn gallu cadarnhau costau rhedeg unwaith y bydd eich mesuryddion wedi’u gosod.

Mae pob Mesurydd Teledu yn defnyddio tua 0.25kWh, sy’n cyfateb yn fras ag 8c y diwrnod neu £31 y flwyddyn. Mae’r Mesurydd Ffocal yn defnyddio tua 0.05kWh, sef tua 2g y diwrnod neu £6 y flwyddyn.

*Mae’r costau hyn yn seiliedig ar y cap pris trydan ym mis Ionawr 2023.



A fyddai angen i mi adael fy llwybrydd a’r Focal Meter ymlaen yn y plwg dros nos?”

Ar ôl ei osod, gofynnwn i chi beidio â dad-blygio’ch Focal Meter.

Rhaid i’ch llwybrydd gael ei blygio i mewn hefyd gan fod hyn yn caniatáu i’r Mesurydd Ffocal gyfleu’r data yn ôl i ni.



“Pan dwi’n defnyddio bancio ar-lein neu’n mewngofnodi i wefan ddiogel, ydych chi’n gallu gweld fy enw defnyddiwr, cyfrinair neu falans?”

Na, mae’r Focal Meter a’r ap Virtual Meter wedi eu ffurfweddu fel mai dim ond traffig o nifer penodol o wasanaethau sy’n cael ei fesur.



Pa mor fawr yw’r ddyfais sy’n cael ei hatodi i fy set deledu?

Llechen 7” ydyw gyda’r dimensiynau 188 x 110 x 21mm.



“A fydd y Focal Meter yn effeithio ar gyflymder fy mand eang?”

Trosglwyddir data rhwng y llwybrydd a’r Focal Meter ond dim digon i gael unrhyw effaith ar gyflymder llwytho. Nid yw cyflymder lawrlwytho yn cael ei effeithio o gwbl gan nad oes rhyng-gipio traffic sy’n dod i mewn.



“A ydych chi’n gwerthu fy nata i hysbysebwyr neu farchnatwyr er mwyn iddynt allu fy nhargedu gyda negeseuon e-bost sothach neu alwadau ffôn sy’n aflonyddu?”

Na, rydym yn gwarantu na fydd eich cyfranogiad ym mhanel Barb byth yn arwain at unrhyw alwadau, negeseuon e-bost na phost sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â panel Barb. Mae’r holl ffigurau gwylio a gyhoeddir gennym yn gwbl ddienw.



“Dwi’n poeni y byddwch yn monitro fy nghyfrif e-bost a chael mynediad at fy rhestr gyswllt i anfon sothach at fy ffrindiau.”

Na, ni allwn gael mynediad at unrhyw e-bost, dogfennau na rhestrau cysylltiadau a gedwir ar eich llechen, cyfrifiadur na ffôn clyfar. Ni allwn ddarllen negeseuon gwib, e-bost nac unrhyw ohebiaeth bersonol eraill.



“Mae gen i gyfrifiadur gwaith yn fy nghartref, a oes angen monitro hyn?”

Mae’r holl setiau teledu, gliniaduron a ffonau clyfar i’w cynnwys, gan gynnwys dyfeisiau gwaith. Os ydych chi’n defnyddio VPN (rhwydwaith preifat rhithwir) i gyrchu’ch gweinydd gwaith fel sy’n ofynnol gan y mwyafrif o gwmnïau heddiw, ni all y mesurydd ffocal fesur nifer y gwylwyr teledu ar gyfer y cyfrifiaduron hyn. Os ydych chi’n defnyddio’ch cyfrifiadur gwaith ar gyfer nifer y gwylwyr teledu ond heb fewngofnodi trwy’r VPN, yna gall y mesurydd ffocal fesur nifer y gwylwyr. Unwaith eto nid oes dim wedi’i osod ar unrhyw ddyfais, mae’r mesurydd ffocal wedi’i gysylltu â’r llwybrydd ac yn mesur nifer y gwylwyr yn oddefol ar bob dyfais yn yr aelwyd.

Ynghylch Ipsos

Mae Ipsos yn gwmni ymchwil annibynnol yn gweithio ar ran Barb. Mae Ipsos yn cyflawni Arolwg Gwylio Teledu Cenedlaethol Barb ac yn nodi cartrefi sy'n gymwys i ymuno â'r Panel Teledu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.ipsos.com**

Ynghylch Kantar

Mae Kantar yn gwmni ymchwil y mae Barb wedi gofyn iddynt weithredu'r panel Gwylio Teledu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.kantar.com**

Ynghylch RSMB

Mae RSMB yn gyfrifol am y fethodoleg, cynllun ystadegol a rheoli ansawdd yr ymchwil cyffredinol ar ran Barb.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.rsmb.co.uk**

Ynghylch Barb

Mae Barb Audiences Ltd yn darparu ffigurau gwylio sianeli teledu, gwasanaethau fideo ar-alw a llwyfannau rhannu fideos i ddiwydiant teledu a hysbysebu'r Deyrnas Unedig.

Mae'r BBC, ITV, Channel 4, Channel 5, Sky, UKTV ac IPA yn gydberchnogion ar Barb.

Mae Barb hefyd yn darparu ffigurau cynulleidfaoedd i amrywiaeth o ddarlledwyr eraill.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.Barb.co.uk**


आज तक


ATN
BANGLA


BOOMERANG


BRIT
ASIA
TV


challenge


CHANNELS 24


colors




GB News
BRITAIN'S NEWS CHANNEL


Geo


GREAT!
movies


HGTV


NV TV
NEW VISION


nickelodeon


ntv
SKY 780


GLOBAL


QUEST


rishtey


ROK


Syfy


TALK
TV


tiny
pop


TLC


BT Sport

CN
CARTOON NETWORK

CBS action

Discovery

dunya

EUROSPORT

food
network

horror
channel

HUM
EUROPE

MTV

NDTV
24x7

Paramount

pick

POP

PTC
PUNJABI

S4C

SONY
SAB

sky
HISTORY

Talking Pictures
TV

UNIVERSAL
CHANNEL

Utsav Gold HD

W

I Grynhoi

Hoffem i'ch cartref ein helpu i lunio dyfodol teledu trwy ymuno â phanel Barb a chaniatáu inni fesur eich ymddygiad gwylio. Mae gwylio ar bob set deledu, llechen, cyfrifiadur a ffôn clyfar yn cael ei gasglu trwy gysylltu mesurydd â phob teledu a chysylltu Focal Meter i lwybrydd band eang y cartref.

Mae angen i bawb yn y cartref gymryd rhan trwy gofrestru eu bod yn gwylio teledu gan defnyddio teclyn pwrpasol. Mae gwylio ar-lein ar ddyfeisiau eraill yn cael ei gasglu'n awtomatig, ac unwaith bydd y dyfais wedi ei chofrestru, nid oes angen gwneud dim byd pellach.

Fel arwydd o ddiolch, mae cartrefi ac unigolion yn casglu pwyntiau tra'u bod ar y panel, y gellir eu cyfnewid am amrywiaeth o dalebau a nwyddau stryd fawr.

Cofiwch, y camau nesaf:

1. Byddwch yn derbyn neges e-bost, SMS neu WhatsApp gyda dolen i ymweld, i gadarnhau bod gennym yr holl fanylion cywir a'ch bod yn hapus i barhau. I gadarnhau bod gennym y manylion cywir, mae angen i ni ofyn rhai cwestiynau dilynol. Bydd y rhain yn cael eu hanfon trwy SMS, WhatsApp, neu e-bost, ond bydd ein tîm hefyd yn cysylltu â chi dros y ffôn.

2. Wedi hynny, bydd Kantar yn cysylltu â chi i drefnu'r amser gorau i osod yr offer mesur teledu.

   Os oes gennych unrhyw ymholiadau, gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0808 129 6827** (mae galwadau i'r rhîf yma am ddim o linellau tir a ffonau symudol yn y DU).

   Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar ein gwefan:

www.shapingtv.co.uk

Barb What People Watch

Ipsos

RSMB

FIFTY5 BLUE